# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# Ymgynghoriad ar y Gorchymyn Cymhwyso Deddfwriaethol: Yr Iaith Gymraeg
# Mawrth 2009

Cyflwynwn dystiolaeth Mudiadau Dathlu'r Gymraeg ger bron Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a croesawn y cyfle i ymhelaethu ar y pwyntiau o fewn y papur hwn yn ein cyfarfod ar yr 17fed o Fawrth.

1. **A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas â hyrwyddo a defnyddio'r iaith Gymraeg?**

   Mae Mudiadau Dathlu'r Gymraeg yn cytuno a'r egwyddor mai Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r lle priodol i ddeddfu ar unrhyw faterion sy'n ymwneud a'r iaith Gymraeg. I'r perwyl hwn, cred Mudiadau Dathlu'r Gymraeg na ddylai unrhyw agweddau o ddeddfu ar y Gymraeg aros yn Senedd San Steffan os oes modd eu symud. Fodd bynnag, credwn ei bod yn bwysig mynd heibio i'r ddadl o'r angen i ddeddfu ar y Gymraeg yn y Cynulliad, gan ganolbwyntio ymdrechion ar sicrhau fod rychwant y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol mor eang a phosibl er mwyn sicrhau na fydd yn rhaid dilyn y broses hirfaith hon er mwyn cynhyrchu cyfres o fesurau ym maes y Gymraeg yn y dyfodol.

2. **A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas â pha wasanaethau ddylai'r cyhoedd allu eu cael yn ddwyieithog?**

   Cred Mudiadau Dathlu'r Gymraeg taw Cynulliad Cymru sydd a'r hawl i ddeddfu dros y Gymraeg. Mae'n rhesymegol felly taw y Cynulliad sydd i amlinellu, ar ôl ymgynghoriad eang, pa wasanaethau ddylai'r cyhoedd eu cael yn ddwyieithog. Fel yr amlinellir yn y Memorandwm esboniadol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, mae'r Llywodraeth am fuddsoddi "mewn rhaglen weithredu i gyflenwi gwasanaethau cyhoeddus sy'n effeithlon, effeithiol ac wedi'u canolbwyntio ar y dinesydd" (tud.4). Os felly, yna dylai pob gwasanaeth cyhoeddus, waeth pa sector y mae'r darparydd ynddi, gael ei gynnwys yn y Gorchymyn.

3. **A ddylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru allu deddfu mewn perthynas â rhyddid pobl i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd?**

   Dylai. Yn unol a phwynt 1 a 2, mae'r gyfrifoldeb o sicrhau hawliau tryloyw i ddinasyddion Cymru i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn gyfrifoldeb i'r Cynulliad. Nid yw'r Mudiadau yn credu dylid unrhyw gyfyngiadau fod ar yr egwyddor sylfaenol yma.

4. **Beth yw eich barn am yr egwyddor cyffredinol y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn y maes a nodir ym Materion 20.1 a 20.2? hy: Mater 20.1: Hybu neu hwyluso'r defnydd o'r iaith Gymraeg; a thrin yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg ar sail cydraddoldeb; Mater 20.2: Darpariaeth am neu mewn cysylltiad â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw).**

   Mae Mudiadau Dathlu'r Gymraeg yn gefnogol i'r egwyddor y dylid rhoi cymhwysedd deddfwriaethol i'r Cynulliad yn meysydd a'i nodir yn Mater 20.1. a 20.2, Er hyn, mae yna le

i ddadlau am ehangu ar y lefel o gymhwysedd (gweler ateb i gwestiwn 6), ac i leihau ar gyfyngiadau'r Gorchymyn.

5. **Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi y byddai Mater 20.1 yn adleisio'r egwyddorion sydd wrth wraidd Deddf 1993 ac yn adeiladu ar yr egwyddorion hynny a hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu ar ystod y swyddogaethau sy'n cael eu cyflawni ar hyn o bryd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac adeiladu ar y swyddogaethau hynny. A ydych yn cytuno y bydd yn caniatáu i'r Cynulliad wneud hyn? Os na, sut y dylid ei ddiwygio?**

   Rydym yn cytuno bod cynnwys Mater 20.1 yn adeiladu ar swyddogaethau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ag egwyddorion Deddf 1993. Mae'r datblygiad yma i'w ganmol yn naturiol, ond mae yna le i ehangu ar egwyddorion y ddeddf. Canmolir yr awydd i "ail-archwilio a diweddaru'r fframwaith deddfwriaethol a sefydlwyd gan Deddf 1993 i fynd i'r afael a diffygion penodol sydd wedi dod i'r amlwg" (tud, 4) er mwyn datblygu'n bellach ar sail egwyddorol Deddf 1993.

6. **Beth yw eich barn ar gwmpas y Gorchymyn arfaethedig o ran y categorïau o bersonau y byddai'n caniatáu i'r Cynulliad osod dyletswyddau arnynt i ddarparu gwasanaethau penodol yn ddwyieithog i'r cyhoedd, hy a yw wedi'i lunio'n rhy gul neu'n rhy eang (Mater 20.1 (a) - (i))? Nodwch yn glir yr isadran/isadrannau y mae eich sylwadau yn ymwneud â hi/â hwy, hy (a) - (i) ac unrhyw is-isadrannau o dan (h).**

   Cred Mudiadau Dathlu'r Gymraeg fod angen cadw ffocws y ddeddfwriaeth ar ddefnyddwyr, sef dinasyddion Cymru. O wneud hyn, gellid dilyn rhesymeg nad cyrff sydd wedi eu rheoleiddio'n unig ddylai ddod o dan rhychwant y GCD ond yn hytrach, y prif wasanaethau, o bob sector, y mae'r cyhoedd yn dod i gyffyrddiad a nhw o ddydd i ddydd. I'r graddau hyn, dylid ystyried fod archfarchnadoedd, banciau a chwmnïau preifat rhyngwladol yr un mor bwysig i ddefnyddiwr yng Nghymru ag y mae'r cyfleustodau. Yn ein barn ni dylai rhychwant unrhyw ddeddf yn y dyfodol gwmpasu'r math yma o gwmnïau yn ogystal.

7. **A yw'r diffiniad a ddefnyddir ar gyfer "awdurdodau cyhoeddus" ar gyfer y Mater hwn yn briodol ("pob awdurdod cyhoeddus sy'n dod o fewn ystyr "public authority" yn adran 6 Deddf Hawliau Dynol 1998")? Os na, pa ddiffiniad y dylid ei ddefnyddio a pham?**

   Ymddengys fod y diffiniad yn briodol, er mae'n ofynnol i'r Cynulliad sicrhau mwy o eglurder i ddinasyddion o'r diffiniad pan ddaw hi i lunio mesur.

8. **Byddai Mater 20.1 yn caniatáu i ddyletswyddau gael eu gosod ar "wasanaethau telathrebu" a "gwasanaethau post a swyddfeydd post" (Mater 20.1 isadran (h)(iii) a (h)(iv)). A yw'r diffiniadau a ddefnyddir ar gyfer "gwasanaethau post", a "gwasanaethau telathrebu" o dan yr adran "Dehongli'r maes hwn" yn y Gorchymyn arfaethedig yn angenrheidiol ac yn briodol? Os na, sut y dylid mynd ati i'w hailddrafftio a pham y dylid gwneud hyn?**

I sicrhau eglurdeb, mae'n angenrheidiol fod y diffiniadau go gyfer y gwasanaethau telathrebu a'r gwasanaethau post (yn enwedig o ystyried y camau i breifateiddio rhan o'r gwasanaeth yma) yn aros fel ag y maent er mwyn sicrhau dilyniant pan ddaw hi i lunio mesur.

9. **Mewn perthynas â Mater 20.1, isadran (e) - "personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd sy'n derbyn cyfanswm o £200,000 neu fwy o arian cyhoeddus mewn blwyddyn ariannol", sef "arian y perir ei fod ar gael yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol": (i) A yw'n angenrheidiol nodi'r diffiniad o "arian cyhoeddus" yn y Gorchymyn arfaethedig? Os felly, a yw'n briodol (fel y'i nodir o dan "Dehongli'r maes hwn")? (ii) Byddai dyletswyddau ond yn cael eu gosod ar bobl sy'n derbyn mwy na £200,000. Ai £200,000 yw'r trothwy cywir i'r Cynulliad gael pwerau deddfu?**

   Mae Mudiadau Dathlu'r Gymraeg yn cymeradwyo'r cymal hwn. (i) Ymddengys fod y diffiniad o arian cyhoeddus yn briodol ac y mae yn angenrheidiol o rhan eglurdeb. (ii) Mae'r swm o £200,000 yn amwys, ac mae angen mwy o fanylder ar y cymal yma. Mae potensial i'r cymal yma fod o rhwystr i'r dinesydd. A yw'n ofynnol i ddinasyddion Cymru cadw golwg ar ba gwmnïau sydd yn derbyn y swm yma cyn fedru disgwyl wasanaethau cyflawn? A fydd cwmni yn darparu gwasanaeth ddwyieithog am gyfnod yn hirach na blwyddyn ar ôl derbyn y swm?

10. **A yw cwmpas Mater 20.2 yn briodol ("darpariaeth am neu mewn cysylltiad â rhyddid personau sy'n dymuno defnyddio'r iaith Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd (gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau ar y rhyddid hwnnw)")? A fydd yn caniatáu i'r Cynulliad ddeddfu yn y dyfodol er mwyn gweithredu'r cynnig fel y mae wedi'i amlinellu yn y Memorandwm Esboniadol?**

    Mae'r Mudiadau yn croesawu'r bwriad i sicrhau nad yw rhyddid dinasyddion i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael ei dramgwyddo. Dylid y rhyddid yma cael ei ailddiffinio fel *hawl* gan rhoi i ddiwedd unrhyw ymyrraeth ar ddymuniad dinasyddion sydd am defnyddio'r Gymraeg yng Nghymru.

11. **Beth yw eich barn ynghylch Erthyglau 4 a 5 y Gorchymyn arfaethedig sy'n ymdrin â chymhwyso'r Gorchymyn arfaethedig i gyrff y Goron?**

    Nid oes unrhyw ddadl rhesymol i eithrio cyrff y Goron o'r dyletswyddau sydd yn ofynnol o gyrff cyhoeddus eraill. Credwn y dylai fod yna swyddfa a fydd a'r gallu i rheoleiddio'r cyrff a ddaw o dan y ddeddf, gan gynnwys cyrff y Goron. Dylai'r rheoleiddiwr hwn feddu ar hawliau cyfreithiol i wneud yn iawn am unrhyw hawliau a fydd yn cael eu tramgwyddo.

12. **A oes unrhyw faterion eraill a fyddai'n dylanwadu ar effeithiolrwydd unrhyw Fesurau yn y dyfodol gan nad yw'r Gorchymyn arfaethedig yn ddigon eang? Os felly, a allwch awgrymu sut y byddai'n rhaid ehangu'r Gorchymyn arfaethedig er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn?**

    Cred Mudiadau Dathlu'r Gymraeg fod datganiad cadarnhaol Llywodraeth Cymru'n Un am yr angen i sicrhau hawliau i'r Gymraeg, statws swyddogol i'r Gymraeg a chreu comisiynydd yn glodwiw. Serch hynny, dylid sicrhau nad rhethreg yn unig yw hyn. Dylid sicrhau y bydd

rhoi statws swyddogol i’r iaith Gymraeg yn egwyddor greiddiol a fydd yn treiddio i natur unrhyw deddfwriaeth arall a ddaw ym maes y Gymraeg. Yn ogystal, dylid sicrhau fod hyn yn cael effaith pellgyrhaeddol ar ystyriaethau mewn meysydd eraill yn ogystal, gan sicrhau fod mesurau mewn meysydd eraill yn cadarnhau’r ymrwymiad Llywodraeth Cymru’n Un i ddiogelu hawliau ieithyddol pobl Cymru. Er enghraifft, yng nghyd-destun addysg cyfrwng Cymraeg rhaid gosod yr hawl i weithredu'r ddeddf yn nwylo dinasyddion Cymru ac nid yn nwylo eu cynrychiolwyr sy'n medru dewis peidio a gwneud hynny. Ar yr un gwynt, dylai creu Comisiynydd yr iaith Gymraeg sicrhau fod yna ddatblygiadau pellgyrhaeddol yn y dulliau rheoleiddio ym maes deddfwriaeth y Gymraeg. Wrth drafod y cysyniad o hawliau i’r unigolyn yng Nghymru, dylid sicrhau fod hawliau yn ymestyn i bob sector gan gynnwys rhannau helaeth y sector breifat. Heb ymestyn i’r sectorau hyn, gellid dadlau y bydd y GCD yn cyfyngu ar hawliau dinesydd o Gymru yn hytrach na’n sicrhau hawliau o’r newydd.

**Mudiadau Dathlu'r Gymraeg**
**Chwefror 2009**

Mae Mudiadau Dathlu'r Gymraeg yn cynnwys: Cyfeillion y Ddaear, Cymdeithas Alawon Gwerin, Cymdeithas y Cymod, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, CYDAG, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Cymuned, Yr Eisteddfod Genedlaethol, Mentrau Iaith Cymru, Merched y Wawr, Mudiad Ffermwyr Ifanc Cymru, RHAG, UCAC, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, Undeb Myfyrwyr Cymraeg Bangor, Undeb Amaethwyr Cymru, Urdd Gobaith Cymru.

gwybodaethmdg@gmail.com